

Pan giliodd pechod

“Diarfogodd y pwerau a’r awdurdodau a’u harwain mewn prosesiwyn gyhoeddus – fel carcharorion rhyfel wedi eu concro ganddo ar y groes.” (adn. 15 Beibl.net)

Beth am ddarllen Colosiaid 2:6–15 ac yna myfyrio

Ddoe fe ddaru ni ddweud bod Duw yn gallu trawsnewid popeth sy’n dod i mewn i’n bywydau – hyd yn oed y math gwaethaf o ddrygioni. Meddylwch am y groes. Dyma’r esiampl orau un. Os gallodd Duw drawsffurfio’r hyn a ddigwyddodd yn y fan honno, fe all wneud hynny yn unrhyw le. Gyda’r groes, fe gymerodd y peth mwyaf enbyd a ddigwyddodd erioed a’i droi i fod y peth mwyaf hyfryd. Y croeshoeliad yw pechod gwaetha’r byd a gobaith penna’r byd. Mae hanfod drygioni yma; dyma’r arddangosiad uchaf o gariad.

Fel hyn y dywedodd un awdur: “Petai ffrind neu aelod o’ch teulu chi wedi marw ar grocbren fydddech chi ddim yn cerdded o gwmpas gyda chrocbren aur am eich gwddf. Byddech yn ceisio cuddio’r gwarth rhag pob llygad. Ond rydym yn dal dull marwolaeth Crist i fyny i’r holl fyd. Dydy pen uchaf tŵr eglwys ddim yn rhy uchel ar ei chyfer; prin fod bwrdd y cymun yn ddigon amlwg iddi. Sylwch mor gyflawn fu’r trawsnewidiad. Ei neges ef sydd arni, nid neges y rhai a’i croeshoeliodd ef.” Pan glywyd sŵn y morthwyliaid olaf ymysg y dorf a’r groes yn cael ei gollwng i’w lle fe allen nhw fod wedi disgwyl clywed mellthion, ond clywed Iesu ddaru nhw ddweud: “O Dad, maddau iddynt, oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei wneud.” (Luc 23:34). Roedd y trawsnewidiad rhyfeddol wedi cychwyn. Fe giliodd pechod, fe’i trechwyd ef, gan ddod megis cefndir tywyll yn unig i’w gariad llachar ef.

Os ydy Duw’n gallu gwneud hynny gyda’r groes, yna beth mae o’n alluog i’w wneud gyda’r drygioni sy’n dod i mewn i’n bywydau ni? A ellir ei drechu gan gamdriniaeth, casineb di-ildio, torcyfraith, colled? Na, bydd yn gwlychu ei bin ysgrifennu yn y lliwiau tywyll hyn ac yn ysgrifennu stori fydd yn troi y drygioni yn ddaioni. Duw sy’n adrodd y stori hon cofiwch – y storiwr gorau yn y bydysawd i gyd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

1 Cor. 1:22–24; 2 Cor. 5:15; Gal. 6:14; Heb. 12:2–3

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth mae Duw wedi ei wneud o rywbeth oedd yn dramgwydd i gred?
2. Beth gynhyrchoedd y groes yn y diwedd i ni ac i Iesu?

Gweddi

O Dad, pryd bynnag ddaw amheunon i darfu arnaf am dy allu di i droi drygioni’n ddaioni, helpa fi i aros wrth y groes. Yno fe drowyd y peth gwaethaf a allai ddigwydd byth i fod y peth gorau a ddigwyddodd erioed. Gogoniant fo i dy enw di. Amen.